Dathlu Gŵyl Dewi
08:03:17

Croesawyd aelodau'r gangen i Glwb Criced Bangor i ddathlu Gŵyl Dewi eleni.

Cafwyd swper blasus iawn a phawb wedi eu plesio yn arw (rhai yn mwynhau mwy nac un pwdin!!) ac yna gwledd o ganu gan Magi Tudur o Benisarwaen, sy'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail.

Ers iddi fod yn 14 oed mae wedi bod yn cyfansoddi ac yn canu ei chaneuon ei hun. Mae'n dalent heb os nac oni bai a does dim rhyfedd felly iddi dderbyn hoff gitar y diweddar Alun 'Sbardun' Huws o'r enwog grwp Tebot Piws a nifer o grwpiau eraill.

Cafwyd ein gwefreiddio gan ei thalent a'i llais hyfryd a phob lwc iddi yn ei dyfodol. Heb anghofio ei thad a ddaeth a hi atom a chyd gyfelio ar ambell i gân, Diolch dad!

Diolchwyd iddi gan Liz Watkin a oedd wedi ei chlywed ar Noson Lawen ond dyma'r tro cyntaf iddi ei chlywed yn fyw, ac iddi beidio a phoeni os oedd wedi dod a chopi anghywir o'i chân newydd a gorfod dechrau eto, os ydy Adele yn cael gwneud fe gaiff Magi wneud hefyd!

Llongyfarchiadau

i Ffion, merch Anita ar achlysur ei phriodas â Gavin

i Gethin, ŵyr Rita ar dderbyn gradd MA

Roedd dwy o'n haelodau yn methu bod hefo ni. Glenys Griffith sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar ond yn gwella yn raddol, a Liz Evans gafodd ddamwain yn ei chartref, hithau'n gwella hefyd. Anfonodd Liz wobr i'r raffl a chofion at bawb, diolch iddi.

Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn ôl hefo ni'n fuan.

Glesni, ŵyres Eirlys Sharpe wedi bod yn yr ysbyty a hithau'n gwella hefyd.

Cydymdeimlwyd hefo Anne Elis sydd wedi cael profedigaeth eto.

Enillwyr y raffl oedd Mary Evans, Gwyneth Williams, Mary Wyn a Sharon

Os am weld mwy o luniau'r noson ewch i'r wefan www.mywbethel.org